

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD Y PENDERFYNIAD</b>	13 Hydref 2021
<b>DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD</b>	27 Hydref 2021
<b>DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	3 Tachwedd 2021

---

### ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Gareth Thomas  
Aelod Cabinet Economi a Chymuned

---

**PWNC:** Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd

---

#### **PENDERFYNIAD –**

Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol i weithredu model gwahanol o ddarpariaeth gwasanaeth, sef Gwasanaeth i'r Cartref a Chludo eitemau ar gais, yn cael ei gyflenwi gan 2 neu 3 cerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer Arfon/Dwyfor a Meirionnydd.

---

#### **RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

---

#### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

#### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –  
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

---

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cyng. Gareth Thomas Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Nia Gruffydd Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	13.10.2021
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

**Pwnc :** Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd

### **Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol i weithredu model gwahanol o ddarpariaeth gwasanaeth, sef Gwasanaeth i'r Cartref a Chludo eitemau ar gais, yn cael ei gyflenwi gan 2 neu 3 cerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer Arfon/Dwyfor a Meirionnydd.

### **Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

1. Yn ystod y cyfnod pandemig (ers adfer gwas yn Gorffennaf 2020) rydym wedi gallu darparu'r gwasanaeth Teithiol trwy gyfrwng 3 gyrrwr a thri cherbyd llai, a chynnig i) Gwasanaeth misol i ddefnyddwyr Llyfrgell i'r Cartref a ii) Gwasanaeth cludo llyfrau ar gais i'r cartref i unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd. Gall hyn fod yn becynnau darllen sy'n cael eu paratoi gan aelodau staff neu geisiadau am lyfrau penodol.
2. Mewn ymgynghoriad staff a gynhaliwyd yn Tachwedd 2020, (cyfradd ymateb 66%), nododd 90% o staff Llyfrgelloedd Gwynedd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai Llyfrgelloedd Gwynedd fod yn cynnig gwasanaeth cludo ar gais i unrhyw un sy'n dymuno hynny.
3. Mewn Ymgynghoriad Defnyddwyr a gynhaliwyd yn Rhagfyr-Ionawr 2021, holwyd y cwestiwn A hoffech i'r gwasanaeth Cludo Llyfrau fod ar gael yn y dyfodol – hyd yn oed ar ôl i lyfrgelloedd ail-agor? Allan o 134 o ymatebion, atebodd 83% yr hoffent i'r gwasanaeth barhau i fod ar gael. (87% os ystyrir ymatebion ar-lein yn unig)
4. Mewn ymarferiad ymgysylltu gyda defnyddwyr cofrestredig y Gwasanaeth Teithiol a Chartref a gynhaliwyd rhwng Mai-Gorffennaf 2021 (Atodiad 1), canfuwyd fod 75% o'r defnyddwyr cofrestredig sydd ddim yn ddefnyddwyr rheolaidd presennol yn hapus gyda'r newid arfaethedig i'r model darparu gwasanaeth, 14% ddim yn hapus a 11% yn gweld ymateb yn amherthnasol gan nad ydynt angen y gwasanaeth ddim mwy am

amrywiol resymau neu eu golwg wedi dirywio i'r fath raddau fel na allant ddarllen llyfrau print.

5. Yn yr un ymarferiad, canfyddwyd fod 99% o'r defnyddwyr cofrestredig sy'n ddefnyddwyr presennol a'r defnyddwyr presennol sy'n derbyn y Gwasanaeth Cludo yn hapus gyda'r newid i'r gwasanaeth, a 1% yn anhapus.
6. Gyda'r ymgysylltu wedi ei gwblhau a bod pob ymdrech posib wedi'i wneud i ymgysylltu a'n holl ddefnyddwyr, credir fod yr opsiwn i ddarparu model newydd o ddarpariaeth ar sail Gwasanaeth Cartref a Chludo am gwrdd ag anghenion y mwyafrif o bobl Gwynedd ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau staffio ac ystyried effaith ar yr hinsawdd.

### **Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

1. Yn ystod y cyfnod pandemig (ers adfer gwas yn Gorffennaf 2020) rydym wedi cynnig gwasanaeth Cludo i'r Cartref ar gais i unrhyw ddefnyddiwr sy'n methu ymweld â'u llyfrgell arferol. I'n galluogi i ddarparu'r gwasanaeth hwn, addaswyd y gwasanaeth Teithiol trwy ddefnyddio'r 3 gyrrwr a thri cherbyd llai, a chynnig Gwasanaeth misol i ddefnyddwyr Llyfrgell i'r Cartref a Gwasanaeth cludo llyfrau ar gais i'r cartref i unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd. Gall hyn fod yn becynnau darllen sy'n cael eu paratoi gan aelodau staff neu geisiadau am lyfrau penodol
2. Mae cyfyngiadau Covid ac Asesiad Risg wedi golygu ei bod yn anodd iawn cael nifer o ddefnyddwyr ar y cerbydau Teithiol ar y tro. Am y rheswm hwn, tynnwyd y cerbydau mawr allan o wasanaeth a defnyddiwyd cerbydau llai i ddarparu gwasanaeth.
3. Gwnaed Asesiad Effaith ar y gwasanaeth newydd hwn - Gwasanaeth Cludo i'r Cartref Llyfrgelloedd Gwynedd – Gwedd 1 Adfer Gwasanaeth yn sgil Covid-19
4. Mae defnydd yr elfen Teithiol o'r gwasanaeth wedi lleihau dros y blynyddoedd gyda gyrrwyr yn adrodd am ostyngiad yn y nifer o ddefnyddwyr sy'n ymweld ag arosfannau teithiol dros y blynyddoedd diwethaf.
5. Mae proffil y defnyddwyr sy'n defnyddio'r arosfannau teithiol yn dangos mai defnyddwyr hŷn yw nifer ohonynt a fyddai'n gymwys i dderbyn y Gwasanaeth Cartref.
6. Gyda ffocws y Cyngor ar leihau allyriadau carbon, mae'r cerbydau Teithiol yn drwm ar ddisl a bellach mae dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth ar sail fwy amgylcheddol angen ei ystyried.
7. Mae'r gwasanaeth Cludo i'r Cartref wedi profi'n boblogaidd ymhlith defnyddwyr ond ni ellir ei gynnig yn y dyfodol heb adolygu'r Gwasanaeth Teithiol fel bod adnoddau'r Gwasanaeth yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib.
8. Mae'r adroddiad yn argymhell parhau a'r trefniant cyfredol a felly nid oes newid fyddai yn cael effaith ar ganfydiadau yr Aseisad Cydraddoldeb a baratowyd yn wreiddiol ar gyfer sefydlu'r sustem.

### **Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

### **Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid:

*“Deallaf nad yw’r newid yn y gwasanaeth a gyflwynir ar y daflen benderfyniad yma’n gofyn am unrhyw adnoddau ychwanegol. Felly, rwy’n cefnogi’r penderfyniad sy’n cynnig gwelliant mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd ynghyd â leihad mewn allyriadau carbon.”*

Swyddog Monitro:

*“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”*

Aelod/au Lleol: Dim yn fater lleol

## **ATODIAD 1**

Cyhoedd: Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda defnyddwyr y Gwasanaeth

### **ADRODDIAD YMARFERIAD YMGYSYLLTU : ADOLYGU'R GWASANAETH TEITHIOL LLYFRGELLOEDD**

Lluniwyd adroddiad i gyfarfod y Tim Arweinyddiaeth ar 9fed Chwefror 2021 er mwyn ceisio arweiniad ar newid ein model o ddarparu Gwasanaeth Teithiol i bobl Gwynedd.

Ar 15fed Ebrill derbyniodd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd yr adroddiad i adolygu'r Gwasanaeth Teithiol, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod. Yr argymhelliad oedd mabwysiadu Opsiwn 1 yn yr adroddiad fel y model darparu a gweithredu gorau ar gyfer y Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd i'r dyfodol, yn dilyn proses ymgynghori a'r defnyddwyr.

Mae'r newid yn golygu Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei ddarparu gan 3 cerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer:-

1. Arfon
2. Dwyfor
3. Meirionnydd

Yn dilyn ymddeoliad gyrrwr yn y 1-2 flynedd nesaf, Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei ddarparu gan 2 gerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer:-

1. Arfon / Dwyfor
2. Meirionnydd

Cynhaliwyd proses ymgysylltu gyda'r newid hwn gyda defnyddwyr y Gwasanaeth rhwng Mai a Gorffennaf 2021.

Dewiswyd tri modd o ymgysylltu, sef:

1. Llythyru gyda defnyddwyr sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Teithiol/Cartref yn y cyfnod 01/01/2019 i 18/02/2021 ond lle nad ydynt yn gwsmeriaid rheolaidd presennol
2. Gyrru holiadur ar-lein i ddefnyddwyr mae cyfeiriad e-bost yn bodoli iddynt sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Teithiol yn y cyfnod 01/01/2019 i 18/02/2021 ond lle nad ydynt yn gwsmeriaid rheolaidd presennol
3. Holi holl ddefnyddwyr presennol y Gwasanaeth Cartref a Chludo trwy ddull wyneb yn wyneb.

Mae copi o'r Holiadur a yrrwyd allan trwy ddull 1 a 2 i'w weld yn Atodiad A.:

Y cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymarferiad ymgysylltu wyneb yn wyneb oedd:

**A ydych yn credu y bydd y gwasanaeth hwn yn cyflenwi eich gofynion?**

Isod, gwelir dau dabl yn coladu canlyniadau'r ymgysylltu, lle tynnwyd ynghyd ymatebion dull 1 a 2, ac yna eu cyfuno gyda chanlyniadau dull 3 i roi tabl yn dangos canlyniad yr ymgysylltu cyfan.

Cyfanswm nifer a yrrwyd holiadur atynt trwy lythyr neu ar-lein oedd 366 gyda 83 o ymatebion yn dod i law sef 20% graddfa ymateb.

TABL YMATEBION HOLIADUR LLYTHYR AC AR-LEIN	Ymatebion	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn berthnasol
Meirionnydd	34	23	5	6
Dwyfor	34	29	4	1
Arfon	15	10	3	2
Cyfanswm	83	62	12	9
Canran	100%	75%	14%	11%
Cyfanswm ymatebion llythyr	74	57	8	9
Cyfanswm atebion ar-lein	9	5	4	0
Cyfanswm ymatebion	83	62	12	9
Holiaduron danfonwyd trwy lythyr	331			
Holiaduron ar-lein	35			
Cyfanswm nifer a holwyd	366			
Canran	20%			

Cyfanswm nifer a yrrwyd holiadur atynt trwy lythyr neu ar-lein neu a ymgysylltwyd gyda hwy wyneb yn wyneb oedd 497 gyda 214 o ymatebion yn dod i law sef 43% graddfa ymateb.

TABL YMATEBION HOLIADUR LLYTHYR AC AR-LEIN a WYNEB YN WYNEB	Ymatebion	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn berthnasol
Meirionnydd	94	82	6	6

Dwyfor	70	65	4	1
Arfon	50	45	3	2
Cyfanswm	214	192	13	9
Canran	100%	90%	6%	4%
Cyfanswm ymatebion llythyr	74	57	8	9
Cyfanswm atebion ar-lein	9	5	4	0
Cyfanswm ymatebion wyneb yn wyneb	131	130	1	0
Cyfanswm ymatebion	214	192	13	9
Holiaduron danfonwyd trwy lythyr	331			
Holiaduron ar-lein	35			
Holiadur wyneb yn wyneb	131			
Cyfanswm nifer a holwyd	497			
Canran	43%			

Gwelir fod 75% o'r defnyddwyr cofrestredig sydd ddim yn ddefnyddwyr rheolaidd presennol yn hapus gyda'r newid arfaethedig i'r model darparu gwasanaeth, 14% ddim yn hapus a 11% yn gweld ymateb yn amherthnasol gan nad ydynt angen y gwasanaeth ddim mwy am amrywiol resymau neu eu golwg wedi dirywio i'r fath raddau fel na allant ddarllen llyfrau print.

O ystyried canlyniadau defnyddwyr cofrestredig a'r rhai sy'n ddefnyddwyr presennol (ac yn derbyn y Gwasanaeth Cartref a'r Gwasanaeth Cludo), gwelir fod 90% yn hapus gyda'r newid i'r gwasanaeth, 6% yn anhapus a 4% yn gweld ymateb yn amherthnasol am y rhesymau a nodwyd uchod.

Credwn fod yr ymgysylltu bellach wedi ei gwblhau a bod pob ymdrech posib wedi'i wneud i ymgysylltu a'n holl ddefnyddwyr. Ar sail yr ymatebion a gafwyd, credwn fod yr opsiwn i ddrparu model newydd o ddarpariaeth ar sail Gwasanaeth Cartref a Chludo am gwrdd ag anghenion y mwyafrif o bobl Gwynedd.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd trwy'r tri dull ymgysylltu.

## **Ymgysylltu Holiadur Llythyr**

“I have not used the mobile service for some years as I attend the library in Dolgellau due to being able to now that I have no young children at home which was when I used the mobile service last.”

“Rydw i yn hoffi pori yn y llyfrau sydd ar y fan. Er hynny, roedd Bob, y Llyfrgellydd yn dda iawn yn dewis llyfrau i mi dros dro pan oeddwn wedi cael llawdriniaeth. Rydw i yn byw hanner ffordd rhwng Aberdyfi a Phennal a dydw i ddim yn gweld fan llyfrgell yn dod i fyny'r allt ½ milltir o'r brif ffordd.”

“no opportunity to browse and choose a subject I wouldn't normally see. I would miss the social [...] of hearing others talk about new books...”

“Croesawaf y newid oherwydd anhawsterau symudedd, ni allaf ddefnyddio'r gwasanaeth teithiol. Rwy'n ddefnyddiwr cyson o'r llyfrau a llyfrau llafar ar-lein - gwerthfawrogi yn fawr iawn ac hefyd y gwasanaeth e-gronau. LLAWER O DDIOLCH!”

“Rhan o'r pleser o ymweld a'r llyfrgell deithiol yw cael pori'r silffoedd a dewis llyfrau fy hun. Bechod mawr fyddai colli hyn.”

“Don't read anymore”

## **Ymgysylltu Holiadur Ar-lein**

“Mae mam yn dibynnu ar y llyfrgell deithiol yn galw yn fisol. Tydi hi ddim eisiau ffonio i archebu a tydi hi ddim ar y we. Gwr y fan llyfrgell yn ei helpu i bigo llyfrau.”

“Nid wyf wedi defnyddio y Llyfrgell deithiol ers peth amser oherwydd fod yn well gennyf mynd i'r llyfrgell yn Nolgellau gan fod fwy o ddewis ar gael yno.”

“I use a computer to choose and order books which I have done when we used to have the mobile coming so it will be just the same for me.”

“I preferred choosing books from van, chatting with driver & local people I didn't normally see. I looked forward to it's visit & enjoyed that facility, it was part of a lovely routine which I miss.”

## **Ymgysylltu wyneb yn wyneb**

“Rwyf yn hollol fodlon efo'r gwasanaeth ac yn ddiolchgar iawn. Mae Wil yn gymwynasgar iawn. Mae wedi gwneud gwahaniaeth i bobl fel fi sydd dim yn medru mynd i'r llyfrgell.”

“Could not be better, without this Service I would be lost, many many thanks, great staff”

“Diolch i chi am y gwasanaeth dros y Pandemic”



“Rwyf yn gweld dewis oddi ar y we a rhoi list i’r gyrrwr yn fwy hwylus.”

“Rwyf yn hoffi’r gwasanaeth yma yn fawr iawn – ardderchog”

“Exceptionally pleased with the librarians choice of books”

“Gyda Diolch mawr - Gwerthfawrogi eich gwasanaeth da, sydd yn rhoi cysur i ni fel darllenwyr. Diolch mawr i chwi o’r galon”

“Mae y gwasanaeth o ddsbarthu y llyfrau yn wych, diolch yn fawr”

“We really do appreciate seineg our Library man – Wil every week bringing our books and cds for us. Thank you”

“How you have made a miserable life so much more tolerable this last year.”

“Gwasanaeth ardderchog tros y blynyddoedd. Dim cwyn o gwbl. Dafydd yn gwrtais ac yn barod i helpu pob amser.”

“Don’t know what I would have done without books during lockdown.”

“I couldn’t do without the Library”